WG35.S82.

# MARWNAD,

ER COFFAWDWRIAETH AM Y

# PARCH. W. JAMES,

*Gwenidog yr Efengyl yn Llanybri a Smyrna, yn mhlwyf Llangain, yr hwn a fu farw ar Nos Sul, Gorphenhaf 27ain, 1862, yn 62 oed. Pregethodd dair gwaith y Sabbath hwnw, heb unrhyw arwyddion o ddiffyg corphorol na meddyliol i'w canfod arno; ond traddodai'r Gwirionedd dwyfol mor hwylus a nerthol, ac y gwnae yn nghof neb a'i hadwaenai. Y Testunau oeddynt, "Cofiwch wraig Lot," Luc, xvii. 32. "O na bai fy mhen yn ddyfroedd, a'm llygaid yn ffynonau o ddagrau," &c., Jer. ix. 1.*

**Gan Theos. Morris, Ysgolfeistr Llanybri.**

---

O ddyfnderoedd doeth Rhagluniaeth,
  Rhyfedd arfaeth Arglwydd ne',
Nid oes neb yn medru 'i darllen,
  Hid nes daw a'i thro i dre;
mbell dro'n yr olwyn ddyrys,
  Sydd yn chwerw i gig a gwa'd,
Ambell un yn felus odiaith,
  Bai'r orfoledd tref a gwlad.

Ond hi barodd drystwch yma,
  Mawr yw'r galar sydd yn awr,
Cwympwyd un o'n Gweinidogion,
  O dan ddyrnod angau mawr;
Ca'dd ei ollwng mewn tangnefedd,
  Yn nistawrwydd prudd y nos,
Wedi gwel'd yr Iachawdwriaeth
  Fawr, trwy haeddiant Gwaed y Groes.

Fe ga'dd dreulio 'i Sabbath yma,
  A nerth i fyned trwy ei waith,
Aeth i'r Sabbath gwynfydedig,
  Yn y trag'wyddoldeb maith,
Diau fod y gwirioneddau,
  A draddodai'r dydd o'r bla'n,

X203310329 W62/24

Fel yn newydd yn ei fynwes,
  Pan y rhuthrodd angau 'mla'n,

Angeu ydoedd heb un colyn,
  Nid oes achos bod yn brudd,
Gan nad oedd ond gwys o'r nefoedd,
  Er ei ollwng ef yn rhydd;
I gael myned at yr Iesu,
  I fwynhau ei siriol wedd,
Ac i ganu'i uchel glodydd,
  Yn y moroedd mawr o hedd.

Gwelodd yno lu'r Merthyru,
  Seintiau ac Angylion glan,
A rhyw luoedd maith ddiangasant,
  I'r dedwyddwch draw o'i fla'n;
Gwelodd yno'i hen gyfeillion,
  Wedi dianc uwch pob clwy',
Mae ef heddyw'n cyfranogi,
  O'u dedwyddwch penaf hwy.

Gwelodd Davies, Rhydyceisiaid,
  Phillips, Bethle'm aeth o'i fla'n,
Rhai fu'n teithio dyffryn Bacca,
  Gydag ef i Salem lan,
Wedi 'u dwyn trwy orthrymderau,
  Temtiasiynau o bob rhyw,
A'u anrhegu yn mhwrcas Iesu,
  N' bur o flaen gorseddfaingc Duw.

Pan yn ieuangc yn Cwmconell,
  Ca'dd ei dywys wrth y gwir,
A'i deimladau yn ei gymhell,
  I bregethu'r Efengyl bur,
Aeth ir Neuadd Lwyd er maethu,
  Ei alluoedd yn y bla'n,
Er cerhyddu a hyfforddi,
  Ac esbonio'r 'scrythyr lan.

Ca'dd ei urddo yn weinidog,
  Pan yn bump ar hugain oed,

Ag eneiniad gogoneddus,
  Gyda hyny iddo 'ro'ed;
Mesur mawr o ras i'w gadw,
  Rhag holl faglau cas y byd,
Ac i ymddwyn yn dra addas,
  I'r Efengyl fawr o hyd.

Ugain mlwydd ac unarbymtheg,
  Mewn ymddygiad teilwng bu,
Yn gweinyddu'r Sacramentau,
  'Nghapel newydd Llanybri,
Undeb mawr a fyddai rhyngddo,
  Ef a'i bobl yn ddible,
Ymgyngorent yn dra phwysig,
  Ar bob achos yn y lle.

Safai'n uchel fel cynghorwr,
  Mynych y cyhoeddai mas,
Ddyfnder calon dyn truenus,
  Ac anfeidrol olud gras;
A dangosai lwybr bywyd,
  I bechadur truan trist,
Gan ei anog i weddio,
  Ac i geisio Iesu Grist.

Wedi marw mae'n llefaru,
  Y capel newydd cofiwch hyn,
Na foed un o'i hen gynghorion,
  'N angof tra fo'ch yn y glyn;
Boed ei ymarweddiad sanctaidd,
  A'i gynghorion tirion ef.
Yn tueddu eich meddyliau,
  Byth i rodio llwybrau'r nef.

William James gynt oedd ei enw,
  Enw newydd sy' arno nawr,
Mewn llyth'renau na ddiellir,
  Eu 'scrifeni ar y llawr;
Wedi gwel'd y rhyfeddodau,
  Yn y nefoedd fawr sy'n bod,

Synu, canu a rhyfeddu,
  Iddo ddyfod yno 'rioed.

Iraidd boed y gwlith eneinia,
  Ei orphwysfa ef o hyd,
Gyda Sarah 'i anwyl briod,
  Hyd nes delo'i lwch ynghyd;
Eu gweddillion gaffo lonydd,
  Obry yn y distaw fedd,
Nes cofodi'n anllygredig,
  I fyn'd i'r briodasol wledd.

Smyrna hefyd sy'n galaru,
  Wedi teimlo colled dwys,
Colli'u bugail anwyl ffyddlon,
  Sydd yn gorwedd dan y gwys;
O ran ei gorph yn huno'n dawel,
  Obry yn y ddaear ddu.
Lle y gorphwys y lluddedig,
  Heb neb i'w blino fel y bu.

O flaenoriaid Capel Newydd,
  Smyrna hefyd gyda hi,
Gofal mawr a orphwys arnoch,
  Ar ol colli'ch bugail cu;
Troi troseddwyr a'u hyfforddi,
  Dyfal borthi'r praidd mewn pryd,
Hau y gwerthfawr had yn brysur,
  Fyddo'ch difyr waith o hyd.

A gweddiwch am weinidog,
  Doeth a Duwiol yn ei le,
Un ddihidlo wleddoedd melus,
  O ddanteithiol fwrdd y ne';
Gan eich tywys trwy bob croesau,
  Maes o'r anial tywyll fyd,
Gerllaw'r dyfroedd araf tawel,
  Gerir gan y praidd o hyd.

---

Caerfyrddin: Argraffwyd gan S. Jones, Heol-y-Prior.